**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cygnor

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 25 Ionawr 2018 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | J E Burtonshaw |
| M C Child | J P Curtice | N J Davies |
| A M Day | P Downing | C R Doyle |
| M Durke | V M Evans | C R Evans |
| W Evans | E W Fitzgerald | R Francis-Davies |
| L S Gibbard | K M Griffiths | J A Hale |
| D W Helliwell | C A Holley | P R Hood-Williams |
| B Hopkins | D H Hopkins | O G James |
| L James | Y V Jardine | M H Jones |
| P K Jones | S M Jones | L R Jones |
| J W Jones | E J King | E T Kirchner |
| M B Lewis | R D Lewis | W G Lewis |
| A S Lewis | C E Lloyd | P Lloyd |
| I E Mann | P M Matthews | P N May |
| H M Morris | D Phillips | C L Philpott |
| S Pritchard | A Pugh | J A Raynor |
| K M Roberts | B J Rowlands | M Sherwood |
| P B Smith | A H Stevens | R C Stewart |
| D G Sullivan | M Sykes | L G Thomas |
| W G Thomas | M Thomas | L J Tyler-Lloyd |
| G D Walker | L V Walton | T M White |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S E Crouch, S J Gallagher, F M Gordon, T J Hennegan, M A Langstone, C Richards, R V Smith a/ac G J Tanner

---

## 133. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gall fod gan gynghorwyr a swyddogion mewn eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid ond llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr P Downing, R D Lewis, W G Lewis, M Sykes a T M White fuddiannau personol a rhagfarnol yng nghofnod 140, "Mabwysiadu'r Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor", a gadawsant y cyfarfod cyn ei ystyried;

2) Datganodd y Cynghorydd D Phillips fudd personol yng Nghofnod 141, "'Gweithio tuag at ffyniant i bawb yn Abertawe', Strategaeth Trechu Tlodi Abertawe ar gyfer 2017-2020";

3) Datganodd y Cynghorwyr M C Child ac R Francis-Davies fudd personol yng Nghofnod 147, "Cwestiynau'r Cynghorwyr".

## 134. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod Cyffredinol y cyngor a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2017 yn amodol ar ychwanegu'r Cynghorydd P M Matthews at y rhestr o ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 135. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Datganodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes y byddai'r ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol diwethaf y cyngor yn cael eu cynnwys yng ngŵŷs nesaf y cyngor.

## 136. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

**1) Cydymdeimladau**

**a) Cyn-gynghorydd, Nancy Thomas**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar y cyn-gynghorydd Nancy Thomas. Roedd y cyn-gynghorydd yn gwasanaethu cymuned Glyn-nedd ar hen Gyngor Sir Gorllewin Morgannwg.

**b) David Morgan, cyn-gadeirydd Abertawe yn ei Blodau**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar David Morgan. Mr Morgan oedd cyn-gadeirydd Abertawe yn ei Blodau a chyn-bennaeth Ysgol Gynradd Dynfant.

Safodd pawb i ddangos cydymdeimlad a pharch.

**2) Y Lluoedd Arfog yng Nghymru - Gwobr Arian yn y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr**

Cyhoeddodd yr Aelod Llywyddol fod yr awdurdod wedi derbyn y Wobr Arian yn y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr yng ngwobrau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru yn ddiweddar.

Roedd y Cynghorydd June Burtonshaw, Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, yn bresennol i dderbyn y wobr.

**3) Gwobr Help Llaw Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu Cymru**

Cyhoeddodd yr Aelod Llywyddol fod yr awdurdod wedi ennill gwobr Menter Iechyd a Lles Orau Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu Cymru am waith gwirfoddolwyr Help Llaw.

Gwasanaeth gwirfoddol unigryw yw Help Llaw, sydd â’r nod o ddarparu gweithwyr gyda chefnogaeth wyneb yn wyneb a dros y ffôn, eu cyfeirio i wasanaethau eraill a rhoi mynediad i amrywiaeth o weithdai a grwpiau er mwyn gwella cynhwysiad cymdeithasol, iechyd meddwl a chorfforol.

Mae'r gwasanaeth wedi parhau i fynd o nerth i nerth, gyda'r gwirfoddolwyr eu hunain yn meddwl am syniadau newydd a ffyrdd blaengar o wella lles a diwylliant y sefydliad. Mae Help Llaw wedi dod yn rhan werthfawr ac annatod o'r Tîm Rheoli Straen a'r strwythur Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol, ac mae'n enghraifft o arfer da unigryw, sydd wedi ennyn diddordeb a chlod gan y sector preifat a chyhoeddus.

Nododd fod ganddo'r pleser mawr o gyhoeddi'r wobr bwysig hon, sy'n adlewyrchu gwaith diflino Help Llaw, i Craig Gimblett, Stefan Eckardt, Caroline Ford, Lorraine Hodson, Ray Mitchell, Tina Williamson, Rob Richards a Jo Coates-Williams fel cynrychiolwyr y gwirfoddolwyr ar ran y cyngor.

**4) Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2017**

Dinasyddion Abertawe a dderbyniodd wobrau yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd.

**a) Swyddog Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (OBE)**

i) Yr Athro Hilary Margaret Lappin-Scott. Am wasanaethau i Ficrobioleg a Hyrwyddo Menywod mewn Gwyddoniaeth a Pheirianneg. (Abertawe);

ii) Jonathan Howell Morgan. Am ei wasanaethau i Chwaraeon Anabledd yng Nghymru. (Llandeilo Ferwallt, Abertawe);

iii) Dr Cerys Rees. Cymrawd, Dadansoddiad Cemegol a Biolegol, Labordy Technoleg a Gwyddoniaeth Amddiffyn. Am wasanaethau i Amddiffyn. (Caersallog, Wiltshire)

**Aelod Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (MBE)**

i) Susan Yvonne Hollister. Pennaeth, Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed, Abertawe. Am wasanaethau i Addysg yn Abertawe. (Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot);

ii) Cwnstabl yr Heddlu Richard Hugh Morgan. Heddlu De Cymru. Am wasanaethau elusennol i hen filwyr y Lluoedd Arfog.

**c) Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM)**

i) Jeanette Lavon Smith. Swyddog Ieuenctid y Sir, Ambiwlans Sant Ioan Gorllewin Morgannwg. Am wasanaeth gwirfoddol i Gymorth Cyntaf ac i bobl ifanc. (Abertawe, Gorllewin Morgannwg);

ii) Dr Margaret Ruth Vincent. Am wasanaethau elusennol yn y DU a thramor a'r gymuned yn Abertawe. (Abertawe);

iii) Alyson Elizabeth Williams. Am wasanaethau i bobl ifanc a'r gymuned yn Abertawe. (Cwmbwrla, Abertawe).

**d) Medal Heddlu'r Frenhines (QPM)**

i) Matthew Jonathan Jukes. Dirprwy Brif Gwnstabl, Heddlu De Cymru.

**5) Dydd Santes Dwynwen**

Nododd yr Aelod Llywyddol ei fod yn Ddydd Santes Dwynwen, nawddsantes cyfeillgarwch a chariad Cymru a'r Celtiaid.

Mae poblogrwydd a dathliad Dydd Santes Dwynwen wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda digwyddiadau arbennig megis cyngherddau a phartïon yn aml yn cael eu cynnal, a chardiau Cymraeg yn cael eu hargraffu. Er nad yw mor boblogaidd â Dydd Sant Ffolant ym mis Chwefror, mae Dydd Santes Dwynwen yn sicr yn dod yn fwyfwy hysbys ymhlith y boblogaeth heddiw yng Nghymru.

**6) Abertawe yn erbyn Lerpwl**

Datganodd yr Aelod Llywyddol fod menyw wedi dioddef o ataliad posib ar y galon tuag at ddiwedd buddugoliaeth Abertawe yn erbyn Lerpwl ar 22 Ionawr 2018, ond yn ffodus roedd Uwch-sarsiant Catrodol Dosbarth 1 y Gwarchodlu Cymreig, Dean Morgan o Ravenhill, wedi dod i'w helpu a'i hadfywio. Llongyfarchiadau i Dean Morgan am feddwl yn gyflym a gweithredu.

### 7) Pen-blwydd hapus i'r Cynghorydd Richard D Lewis

Dymunodd yr Aelod Llywyddol ben-blwydd hapus i'r Cynghorydd Richard D Lewis.

## 137. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### 1) Newid dyddiadau'r Cabinet a'r cyngor

Datganodd Arweinydd y Cyngor fod cyfarfod y Cabinet sydd wedi'i glustnodi er mwyn ystyried y gyllideb wedi'i drefnu ar gyfer 8 Chwefror 2018; fodd bynnag, byddai nawr yn cael ei gynnal ar 15 Chwefror 2018. Bydd cyfarfod y Cabinet ar 8 Chwefror 2018 yn mynd rhagddo a bydd yn ystyried adroddiad "Monitro cyllideb refeniw a chyfalaf 3ydd chwarter 2017-2018" ymysg adroddiadau cyffredin eraill y Cabinet.

Cynhelir prif gyfarfod cyllidebol y Cabinet am 14:00pm ddydd Iau, 15 Chwefror 2018.

O ganlyniad i'r newid hwn, mae'r Aelod Llywyddol, mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol, wedi cytuno i ganslo cyfarfod y cyngor ar 22 Chwefror 2018 ac wedi'i aildrefnu ar gyfer 17:00pm ddydd Iau, 1 Mawrth 2018.

### 2) Yr wybodaeth ddiweddaraf am Forlyn Llanw Bae Abertawe

Nododd Arweinydd y Cyngor y byddai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cwrdd ar 26 Ionawr 2018 er mwyn trafod Morlyn Llanw Bae Abertawe.

### 3) Ymweliad â Wuhan, Tsieina, gan y Cynghorydd Robert Francis-Davies

Nododd Arweinydd y Cyngor y byddai'r Cynghorydd Robert Francis-Davies yn teithio i Wuhan, Tsieina, yr wythnos nesaf er mwyn llofnodi cytundeb economaidd rhwng y ddwy ddinas.

### 4) Greg Jones - Swyddog Cyfathrebu

Dymunodd yr Aelod Llywyddol yn dda i Greg Jones (Swyddog Cyfathrebu) wrth iddo ddechrau ei rôl newydd gyda'r Dinas-ranbarth.

## 138. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Gofynnwyd cwestiynau am Gofnod 147 "Cwestiynau'r Cynghorwyr - Cwestiwn 7". Ymatebodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd.

## 139. Cyflwyniad Cyhoeddus - RNIB Abertawe a Nam ar y Golwg Gorllewin Morgannwg.

Rhoddodd Anita Davies a Susan Thomas gyflwyniad ar waith Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion a Nam ar y Golwg Gorllewin Morgannwg.

Diolchodd y Cynghorydd M C Child iddynt am y cyflwyniad.

## 140. Mabwysiadu'r cynllun gostyngiad treth y cyngor.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn esbonio'r gofyniad i ystyried yn flynyddol a oes angen adolygu neu ddisodli Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor presennol y cyngor, a'r gofyniad i naill ai mabwysiadu cynllun newydd neu ail-fabwysiadu'r cynllun presennol erbyn 31 Ionawr 2018.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ("Rheoliadau’r Gofynion Rhagnodedig") gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (LICC) ar 26 Tachwedd 2013;

2) Nodi'r diwygiadau i "Reoliadau’r Gofynion Rhagnodedig" a gynhwyswyd yn Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a’r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2018, wedi'u hystyried a'u cytuno arnynt gan LICC ar 9 Ionawr 2018;

3) Nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd ar feysydd dewisol y cynllun presennol gan y cyngor ym mis Rhagfyr 2014;

4) Y bydd y cynllun presennol (2017/2018) o ran y meysydd dewisol (fel a nodwyd yn adran 3 yr adroddiad) yn aros yr un peth o 2018/2019;

5) Mabwysiadu'r cynllun fel a nodwyd yn adran 3 yr adroddiad ac adlewyrchu unrhyw ddiwygiadau a wnaed gan LICC yn y cynllun.

## 141. Gweithio tuag at ffyniant i bawb yn Abertawe' a Strategaeth Trechu Tlodi i Abertawe 2017-2020

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau Cryfach adroddiad a oedd yn pennu’r Strategaeth Trechu Tlodi ddiwygiedig a'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig i'w cymeradwyo yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus estynedig.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Strategaeth Trechu Tlodi, 'Gweithio tuag at ffyniant i bawb yn Abertawe', a'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig.

**142. Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Abertawe**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau Cryfach adroddiad a oedd yn cyflwyno ymateb partneriaeth strategol ar gyfer cyflwyno blaenoriaethau er mwyn dod â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i ben yn Abertawe.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

**143. Adroddiad Hunanarfarnu Abertawe ar gyfer Gwasanaethau Addysg i Blant a Phobl Ifanc yr Awdurdod Lleol 2017.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad a oedd yn cyflwyno fersiwn derfynol adroddiad hunanwerthuso'r Adran Addysg.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi canfyddiadau adroddiad hunanwerthuso 2017.

**144. Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i HMS Cambria**

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth er mwyn cyflwyno Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i HMS Cambria.

**Penderfynwyd:**

1) Cyflwyno Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i HMS Cambria;

2) Cynnal cyfarfod seremonïol y cyngor ar 17 Mawrth 2018 i gyflwyno'r teitl Rhyddid er Anrhydedd.

**145. Aelodaeth Pwyllgorau.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes adroddiad yn amlinellu enwebiadau/diwygiadau i gyrff y cyngor.

Dywedodd nad oedd Arweinydd y Cyngor wedi gwneud unrhyw newidiadau i aelodaeth cyrff allanol yr awdurdod.

**Penderfynwyd:**

**1)** Diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

**i) Pwyllgor y Rhaglen Graffu**
Tynnu enw'r Cynghorydd J P Curtice.
Ychwanegu'r Cynghorydd W G Lewis.

**ii) Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol**
Tynnu enw'r Cynghorydd B J Rowlands.

**iii) Panel Ymddiriedolwyr**
Ychwanegu'r Cynghorydd M B Lewis.

## 146. Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol.

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol.

## 147. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

### 1) 'Cwestiynau Atodol' Rhan A

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol.

Cyflwynwyd chwe (6) 'Chwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng ngwŷs y cyngor.

Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar gyfer y cwestiynau atodol.

### 2) 'Cwestiynau Rhan B nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'

Cyflwynwyd un (1) 'cwestiwn Rhan B nad oedd angen cwestiynau atodol' Rhan B.

Daeth y cyfarfod I ben am 7.35 pm

**Cadeirydd**